Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

20 Ebrill 2025
Dydd y Pasg
"Cydlawenhawn, cyfododd Crist o'i fedd"

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Ifer Arch

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Nia Thomas / Rhys Davies
Anthem: *Heddiw Cododd Crist yn fyw* – Thatcher
Emynau: 104 (Easter Hymn); 97 (Macabeus); 96 (Pembroke); 99 (I Dduw y bo'r)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 66:1-13
Darlleniadau: Eseia 43:1-21
I Corinthiaid 15:1-11
Darllenwyr: Karl Davies / Gaynor Williams
Emynau: 109 (Victory); 112 (Beverley); 104 (Bala)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Cynthia Davies, Megan Davies, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth y Pasg 22 Ebrill 2025
Dim ymarfer côr

Dydd Mercher y Pasg 23 Ebrill 2025
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 27 Ebrill 2025
Y Pasg Bach
10.30am Y Foreol Weddi ar gân a Phregeth
6.00pm Y Cymun Bendigaid

HEDDIW: PARCIO
Cofiwch fod parcio o amgylch y Cilgant yn rhad ac am ddim heddiw. Mynnwch a defnyddiwch eich hawl wrth ddod i'r eglwys heddiw.

DIOLCH
Diolch i bawb a fu mor brysur a diwyd yn glanhau'r eglwys, golchi a smwddio'r llieiniau, polisio'r llestri arian a phres, a gwisgo'r eglwys â blodau ar gyfer y Pasg eleni. Mae'n edrych yn odidog. *Y Ficer.*

Y CÔR
Diolch i'n cyfarwyddwr cerdd ac aelodau'r côr am eu holl waith paratoi ar gyfer Gwener y Groglith a Dydd y Pasg. Ni fydd ymarfer côr yr wythnos hon. Mae pawb yn haeddu seibiant bach.

FESTRI'R PASG
Gyda'r Pasg fe ddaw Festri'r Pasg! Oherwydd bod y Pasg mor hwyr eleni, cynhelir ein Festri (sef cyfarfod blynyddol yr eglwys) **dydd Sul 11 Mai** yn syth ar ôl y gwasanaeth 10.30am. Y gobaith yw dosbarthu yr adroddiad blynyddol erbyn diwedd yr wythnos.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG
Os hoffech sefyll fel aelod o'r Cyngor Plwyf am y flwyddyn 2025 – 2026 a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys.

CYNHADLEDD Y DDEONIAETH A'R ESGOBAETH
Byddwn yn ethol unigolion i gynrychioli EDS yng Nghynhadledd y Ddeoniaeth (dau gyfarfod y flwyddyn) a Chynhadledd yr Esgobaeth (dau gyfarfod y flwyddyn) am gyfnod o dair blynedd.

GWASANAETH CWMPLIN DROS ZOOM
Ymddiheuriadau mawr am fethu â chynnal y gwasanaeth Cwmplin nos Fercher diwethaf. Roedd "outage" wedi taro Zoom ac nid oedd yn gweithio yn unlle yn y byd! Diolch i bawb a ddilynodd y gwasanaethau cwmplin yn ffyddlon yn ystod y Garawys.

CYMDEITHASU MIS MAI
Does dim digwyddiad cymdeithasol ym mis Ebrill oherwydd y Pasg. Yr ydym yn trefnu'r wibdaith i Gadeirlan Aberhonddu ar gyfer dydd **Iau 22 Mai**. Nodwch y dyddiad; bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn maes o law.

BANC BWYD CAERDYDD
Diolch i bawb a gyfrannodd nwyddau i waith y banc bwyd. Casglwyd 30Kg a £40. Mae'r nwyddau a'r arian wedi mynd i'r ganolfan ddosbarthu.

ROTA BLODAU'R ALLOR
Diolch i bawb sydd eisoes wedi rhoi eu henwau ar y rota blodau. **Mae ambell fwlch angen ei lenwi**. Felly, os hoffech roi blodau eleni, a wnewch chi roi eich enw ar y rota sydd yng nghefn yr eglwys.

Y GANOLFAN GLYD
Eglwys Dewi Sant sydd ar ddyletswydd yng nghanolfan Glyd y Tabernacl dydd **Sul 18 Mai**. Os hoffech wirfoddoli a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys. Mae angen 6 gwirfoddolwr.

AGOR YR EGLWYS
Ar ddyletswydd Dydd Mercher 23 Ebrill:
11.30am – 1.30pm:
Eryl Fuge a Geraint Lewis

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun y Pasg 21 Ebrill:

GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:
- Hong Kong Sheng Kung Hui
- Ardal Gweinidogaeth De Morgannwg, y Parchedig Andrew James (Arweinydd)

Actau 2:14, 22-32; Salm 16:1:5-11;
Mathew 28:8-15
Gweddïwn: Esgobaeth Mbeere – Eglwys Anglicanaidd Cenia
Ardal Gweinidogaeth Penarth, y Parchedig Mark Jones (Arweinydd)

Dydd Mawrth y Pasg 22 Ebrill:
Actau 2:14, 36-41; Salm 33:1-5, 18-22; Ioan 20:11-18
Gweddïwn dros: Esgobaeth Mbhashe – Eglwys Anglicanaidd De Affrica
Deoniaeth Ystradyfodwg, y Deon Bro, y Parchedig Ganon Sarah Rogers

Dydd Mercher y Pasg 23 Ebrill:
Actau 3:1-10; Salm 105:1-9; Luc 24:13-35
Gweddïwn dros: Esgobaeth Meath a Kildare, Eglwys Iwerddon
Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon, y Parchedig Mathew Gibbon

Dydd Iau y Pasg 24 Ebrill:
Actau 3:11-26; Salm 8; Luc 24:36b-48
Gweddïwn dros: Esgobaeth Medak
Ardal Gweinidogaeth Cynon Uchaf, arweinydd i'w benodi

Dydd Gwener y Pasg 25 Ebrill:
Actau 4:1-12; Salm 116:1-9; Ioan 21:1-14
Gweddïwn dros: Esgobaeth Melanesia Ganolig, Eglwys Anglicanaidd Melanesia
Deoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, deon bro i'w benodi

Dydd Sadwrn y Pasg 26 Ebrill:
Actau 4:13-21; Salm 118:1-4, 22-29; Marc 16:9-15
Gweddïwn dros: Esgobaeth Melbourne – Eglwys Anglicanaidd Awstralia
Ardal Gweinidogaeth Cymoedd Llynfi ac Uwch Afan, y Parchedig Rick Gratton, arweinydd